OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2007 Rhif 3563 (Cy.313)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion) (Cymru) (Diwygio) 2007

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud mân newidiadau i Reoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion) (Cymru) 2004 ("Rheoliadau 2004").

Mae rheoliad 2(2) yn diwygio'r diffiniad o "cymwysterau allanol a gymeradwywyd". Mae rheoliad 2(4) yn dileu rheoliad 6(2) o Reoliadau 2004 fel nad yw disg hyblyg mwyach yn cael ei ystyried yn fodd derbyniol i drosglwyddo'r wybodaeth sy'n ofynnol gan Reoliadau 2004.

Mae rheoliad 2(5) yn diwygio'r amser y mae'n rhaid i bennaeth hen ysgol disgybl anfon y ffeil drosglwyddo gyffredin at bennaeth ysgol newydd y disgybl o'i fewn. Yn yr amgylchiad hwn rhaid anfon y ffeil cyn gynted â phosibl ar ôl y dyddiad y daeth y pennaeth i wybod gyntaf fod y disgybl wedi cofrestru yn yr ysgol newydd a beth bynnag, o fewn 15 niwrnod ysgol o gofrestriad y disgybl yn yr ysgol honno.

Mae rheoliad 2(8) yn ei gwneud yn ofynnol i adroddiad y pennaeth i ddisgyblion sy'n oedolion ac i rieni gynnwys cyfartaledd y pwyntiau a sgoriwyd gan ddisgybl yn y pedwerydd cyfnod allweddol o ran unrhyw gymhwyster allanol a gymeradwywyd. Penderfynir ar unrhyw gwestiwn ynghylch y nifer o bwyntiau a ddyrennir i bob pwnc yn unol â'r Gronfa Ddata Genedlaethol o Gymwysterau Achrededig a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru.

Mae rheoliad 2(9) yn ei gwneud yn ofynnol i'r cofnod cwricwlaidd a gedwir gan y pennaeth gofnodi cyfartaledd y pwyntiau a sgoriwyd gan ddisgybl yn unrhyw gyfnod allweddol o ran unrhyw gymhwyster allanol a gymeradwywyd. Penderfynir ar unrhyw

WELSH
STATUTORY INSTRUMENTS

# 2007 No. 3563 (W.313)

# EDUCATION, WALES

## The Education (Pupil Information) (Wales) (Amendment) Regulations 2007

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations make minor amendments to the Education (Pupil Information) (Wales) Regulations 2004 ("the 2004 Regulations").

Regulation 2(2) amends the definition of "approved external qualifications". Regulation 2(4) deletes regulation 6(2) of the 2004 Regulations so that a floppy disk is no longer regarded as an acceptable means of transferring the information required by the 2004 Regulations.

Regulation 2(5) amends the time within which a head teacher of a pupil's old school must send the common transfer file to the head teacher of the pupil's new school. In this circumstance the file must be sent as soon as possible after the date on which the head teacher first learned of the pupil registering at the new school and in any event within 15 school days of the pupil registering at that school.

Regulation 2(8) requires the head teacher's report to adult pupils and parents to include the average points scored by a pupil in the fourth key stage in respect of any approved external qualification. Any question on the points allocated to each subject is determined in accordance with the National Database of Accredited Qualifications published by the Welsh Ministers.

Regulation 2(9) requires the curricular record maintained by the head teacher to record the average points scored by a pupil in any key stage in respect of any approved external qualification. Any question on the points allocated to each subject is determined by

gwestiwn ynghylch y nifer o bwyntiau a ddyrennir i bob pwnc yn ôl y Gronfa Ddata Genedlaethol o Gymwysterau Achrededig a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru.

the National Database of Accredited Qualifications published by the Welsh Ministers.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2007 Rhif 3563 (Cy.313)

## ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion) (Cymru) (Diwygio) 2007

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *17 Rhagfyr 2007* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *20 Rhagfyr 2007* |
| *Yn dod i rym* | *14 Ionawr 2008* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 408, 563 a 569(4) a (5) o Ddeddf Addysg 1996(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio ynddynt hwy(**2**) ac ar ôl ymgynghori â'r personau hynny yr oedd ymgynghori â hwy yn ymddangos yn ddymunol i Weinidogion Cymru yn unol ag adran 408(5) o Ddeddf Addysg 1996, yn gwneud y Rheoliadau canlynol.

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1**.–(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion) (Cymru) (Diwygio) 2007 a deuant i rym ar 14 Ionawr 2008.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(**1**) 1996 p.56. Diwygiwyd adran 408 gan Ddeddf Addysg 1997 (p.44), Atodlen 7, paragraff 30, gan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p.31), Atodlen 30, paragraffau 57 a 106, gan Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 (p. 21) Atodlen 9, paragraff 57 a chan Deddf Addysg 2002 (p.32), Atodlen 21, paragraff 46. Am y diffiniad o "prescribed" ac o "regulations" gweler adran 579 o Ddeddf 1996.

(**2**) Cafodd swyddogaethau yr Ysgrifennydd Gwladol o dan yr adrannau hyn eu trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, (O.S 1999/672) ac yna i Weinidogion Cymru o dan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru (p.32).

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2007 No. 3563 (W.313)

## EDUCATION, WALES

## The Education (Pupil Information) (Wales) (Amendment) Regulations 2007

| | |
|---|---|
| *Made* | *17 December 2007* |
| *Laid before the National Assembly for Wales* | *20 December 2007* |
| *Coming into force* | *14 January 2008* |

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred on the Secretary of State by sections 408, 563 and 569(4) and (5) of the Education Act 1996(**1**) and now vested in them(**2**) and after consulting with those persons with whom consultation appeared to the Welsh Ministers to be desirable pursuant to section 408(5) of the Education Act 1996, make the following Regulations.

**Title, commencement and application**

**1**.–(1) These Regulations are called the Education (Pupil Information) (Wales) (Amendment) Regulations 2007 and come into force on 14 January 2008.

(2) These Regulations apply in relation to Wales.

(**1**) 1996 c.56. Section 408 was amended by the Education Act 1997 (c.44), Schedule 7, paragraph 30, the School Standards and Framework Act 1998 (c.31), Schedule 30, paragraphs 57 and 106, the Learning and Skills Act 2000 (c.21), Schedule 9, paragraph 57 and the Education Act 2002 (c.32), Schedule 21, paragraph 46. For the definition of "prescribed" and of "regulations" see section 579 of the 1996 Act.

(**2**) The functions of the Secretary of State under these sections were transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672) and then to the Welsh Ministers under paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c.32).

**Diwygiadau i Reoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion) (Cymru) 2004**

**2**.–(1) Diwygir Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion) (Cymru) 2004(**1**) yn unol â pharagraffau (2) i (11) isod.

(2) Diwygir y diffiniad o "cymwysterau allanol a gymeradwywyd" yn rheoliad 2(1) fel a ganlyn-

(aa) yn lle'r geiriau "adran 96(5)" rhodder y geiriau "adrannau 96(5) a 97(5)"; a

(bb) yn lle'r geiriau "adran 96" rhodder y geiriau "adrannau 96 a 97";

(3) Yn rheoliad 2(1) mewnosoder y canlynol yn y man priodol -

"mae i "blwyddyn ysgol" yr ystyr a roddir i "*school year*" gan adran 579(1) o Ddeddf 1996;"; ac

ystyr "canllawiau Asesu Statudol a'r Trefniadau Adrodd" ("*Statutory Assessment and Reporting Arrangements guidance*") yw'r canllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru bob blwyddyn ysgol ar weinyddu asesiadau statudol;";

"ystyr "y Gronfa Ddata Genedlaethol o Gymwysterau Achrededig" ("*the National Database of Accredited Qualifications*") yw'r gronfa ddata a gynhelir ac a gyhoeddir ar y cyd gan Weinidogion Cymru, yr Awdurdod Cymwysterau a Chwricwlwm a'r Cyngor dros Gwricwlwm, Arholiadau ac Asesu yng Ngogledd Iwerddon;"(**2**).

(4) Yn rheoliad 6(2) dileer paragraff (b).

(5) Yn rheoliad 6(3) ar ôl y geiriau "i bennaeth yr ysgol newydd" mewnosoder dileer "cyn" a mewnosoder "cyn gynted â phosibl ar ôl y dyddiad pan ddaeth pennaeth yr hen ysgol i wybod gyntaf fod y disgybl wedi cofrestru yn yr ysgol newydd a beth bynnag dim hwyrach na chyn"

(6) Ym mharagraff 1(g) o Atodlen 1 dileer y geiriau "ac, os felly, gyda phwy".

(7) Ym mharagraff 1 o Atodlen 1 dileer is-baragraff (i).

(8) Yn lle paragraff 4 yn Rhan 1 o Atodlen 2 rhodder-

(**1**) O.S. 2004/1026 (Cy.123) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2004/2914 (Cy.253), O.S. 2005/1396 (Cy.110) ac O.S. 2005/3239 (Cy.244).

(**2**) Y wefan ar gyfer y Gronfa Ddata Genedlaethol o Gymwysterau Achrededig yw www.accreditedqualifications.org.uk. Mae'r wefan hon yn cynnwys manylion cymwysterau a achredir gan Weinidogion Cymru, yr Awdurdod Cymwysterau a Chwricwlwm a'r Cyngor dros Gwricwlwm, Arholiadau ac Asesu yng Ngogledd Iwerddon.

**Amendments to the Education (Pupil Information) (Wales) Regulations 2004**

**2**.–(1) The Education (Pupil Information) (Wales) Regulations 2004(**1**) are amended in accordance with paragraphs (2) to (11) below.

(2) The definition of "approved external qualifications" in regulation 2(1) is amended as follows -

(aa) for the words "section 96(5)" substitute the words "sections 96(5) and 97(5)"; and

(bb) for the words "section 96" substitute the words "sections 96 and 97";

(3) In regulation 2(1) insert the following where appropriate -

""the National Database of Accredited Qualifications" ("*y Gronfa Ddata Genedlaethol o Gymwysterau Achrededig*") means the database maintained and published jointly by the Welsh Ministers, the Qualifications and Curriculum Authority and the Council for the Curriculum, Examinations and Assessment in Northern Ireland;"(**2**);

""school year" ("*blwyddyn ysgol*") has the meaning given to it by section 579(1) of the 1996 Act;"; and

""Statutory Assessment and Reporting Arrangements guidance" ("*canllawiau Asesu Statudol a Threfniadau Adrodd*") means the guidance published by the Welsh Ministers each school year on the administration of statutory assessments;".

(4) In regulation 6(2) delete paragraph (b).

(5) In regulation 6(3) after the words "of the new school" insert "as soon as possible after the date on which the head teacher of the old school first learned of the pupil's registration at the new school and in any event no later than".

(6) In paragraph 1(j) of Schedule 1 delete the words "and, if so, with whom".

(7) In paragraph 1 of Schedule 1 delete sub-paragraph (m).

(8) For paragraph 4 in Part 1 of Schedule 2 substitute -

(**1**) S.I. 2004/1026 (W.123) as amended by S.I. 2004/2914 (W.253), S.I. 2005/1396 (W.110) and S.I. 2005/3239 (W.244).

(**2**) The website for the National Database of Accredited Qualifications is www.accreditedqualifications.org.uk. This website contains details of qualifications that are accredited by the Welsh Ministers, the Qualifications and Curriculum Authority and the Council for the Curriculum, Examinations and Assessment in Northern Ireland.

"**4**.–(1) Enw unrhyw bwnc y rhoddwyd enw'r disgybl ar ei gyfer o ran cymhwyster allanol a'r radd (os oes un) a gafwyd.

(2) Cyfartaledd y pwyntiau a sgoriodd y disgybl mewn arholiadau pwnc o'r fath y rhoddwyd enw'r disgybl ar eu cyfer.

(3) At ddibenion y paragraff hwn rhaid penderfynu unrhyw gwestiwn ynghylch dyraniad y pwyntiau i bob cymhwyster allanol a gymeradwywyd yn unol â'r Gronfa Ddata Genedlaethol o Gymwysterau Achrededig.".

(9) Yn lle paragraff 6 yn Rhan 3 o Atodlen 2 a'i bennawd rhodder–

"**Disgyblion y rhoddwyd eu henwau ar gyfer cymhwyster allanol a gymeradwywyd**

**6**.–(1) Enw unrhyw bwnc y rhoddwyd enw'r disgybl ar ei gyfer o ran cymhwyster allanol a gymeradwywyd a'r radd (os oes un) a gafwyd.

(2) Cyfartaledd y pwyntiau a sgoriodd y disgybl mewn arholiadau pwnc o'r fath y rhoddwyd enw'r disgybl ar eu cyfer.

(3) At ddibenion y paragraff hwn rhaid penderfynu unrhyw gwestiwn ynghylch dyraniad y pwyntiau i bob cymhwyster allanol a gymeradwywyd yn unol â'r Gronfa Ddata Genedlaethol o Gymwysterau Achrededig."

(10) Yn Rhan 3 o Atodlen 2 dileer paragraff 7.

(11) Ym mharagraff 1(1), 2(1) a 3(1) o Atodlen 3 yn lle'r geiriau "sydd bythefnos o flaen diwrnod ysgol olaf tymor yr haf " rhodder "a bennir yn y canllawiau Asesu Statudol a'r Trefniadau Adrodd".

"**4**.–(1) The name of any subject in which the pupil was entered in respect of an approved external qualification and the grade (if any) achieved.

(2) The average number of points scored by the pupil in such subject examinations entered by the pupil.

(3) For the purposes of this paragraph any question as to the points allocated to each approved external qualification must be determined in accordance with the National Database of Accredited Qualifications.".

(9) For paragraph 6 in Part 3 of Schedule 2 and its heading substitute–

"**Pupils entered for an approved external qualification**

**6**.–(1) The name of any subject in which the pupil was entered in respect of an approved external qualification and the grade (if any) achieved.

(2) The average number of points scored by the pupil in such subject examinations entered by the pupil.

(3) For the purposes of this paragraph any question as to the points allocated to each approved external qualification must be determined in accordance with the National Database of Accredited Qualifications.".

(10) In Part 3 of Schedule 2 delete paragraph 7.

(11) In paragraphs 1(1), 2(1) and 3(1) of Schedule 3 for the words "which is two weeks before the last school day of the summer term" substitute "specified in the Statutory Assessment Reporting Arrangements guidance".

*Jane Hutt*

Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru.

The Minister for Children, Education, Lifelong Learning and Skills, one of the Welsh Ministers

17 Rhagfyr 2007

17 December 2007

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2007 Rhif 3563 (Cy.313)

# 2007 No. 3563 (W.313)

## ADDYSG, CYMRU

## EDUCATION, WALES

Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion) (Cymru) (Diwygio) 2007

The Education (Pupil Information) (Wales) (Amendment) Regulations 2007

© Hawlfraint y Goron 2008

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2008

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

**£3.00**

W228/01/08 ON